

Dementia a Dychymyg

Crynodeb Ymchwil 2 : effaith rhaglen celfyddydau gweledol ar ansawdd bywyd, cyfathrebu a llesiant pobl sy'n byw gyda dementia

Beth yw Dementia a Dychymyg?

Archwiliodd Dementia a Dychymyg sut y gall celf gyfrannu at greu cymunedau cyfeillgar i ddementia. Nododd ein rhaglen waith sut mae gweithgareddau celf:

- Yn fuddiol i bobl sy'n byw gyda dementia a'r rhai sy'n gofalu amdanynt.
- Yn ein helpu i ddeall y profiad o fyw gyda dementia.
- Yn helpu i godi ymwybyddiaeth gyhoeddus o fyw gyda dementia.



Roedd Dementia a Dychymyg yn gydweithrediad celfyddydol a gwyddoniaeth sylweddol rhwng prifysgolion, artistiaid, elusennau a darparwyr

gwasanaethau diwylliannol, yn gweithio gyda'i gilydd drwy bum prosiect rhyng-gysylltiedig. Mae'r crynodeb ymchwil hwn yn amlygu un cam o'r prosiect.

Pam wnaethom ni y prosiect hwn?

Er gwaethaf ymchwil barhaus, cyfyngedig yw'r triniaethau meddygol sydd ar gael i bobl sy'n byw gyda dementia. Felly mae cyfleoedd i gyfoethogi ansawdd bywyd trwy weithgareddau creadigol o berthnasedd rhyngwladol.


Beth wnaethom ni?

Datblygwyd rhaglen gelf weledol 12 wythnos (gweler crynodeb ymchwil 1), a archwiliodd yr effaith ar bobl sy'n byw gyda dementia trwy ymchwiliad hydredol dulliau cymysg. Defnyddiwyd pedwar dull gwahanol i gasglu data, gan anelu at ddal yr effaith 'yn yr eiliad' a 'thros amser'.



Pwy gymerodd ran?

Cafodd pobl sy'n byw gyda dementia ysgafn i ddifrifol eu recriwtio ar draws tri lleoliad ymchwil yng Nghymru a Lloegr (cartrefi gofal preswyl, ysbyty sirol a lleoliadau cymunedol). Mae hwn yn un o'r archwiliadau ymchwil mwyaf i brofi rhaglen gelfyddydol mewn gofal dementia.



Beth yw'r prif ganfyddiadau?

"Mae'r grŵp yn eich sugno'n ôl o'r dibyn, cododd fi allan o iselder ysbryd"

- Roedd cymryd rhan mewn gweithgaredd celfyddydau gweledol yn well er mwyn llesiant na chymryd rhan mewn gweithgaredd cymdeithasol, gan dynnu sylw at gyfraniad unigryw y celfyddydau.
- Roedd sgorau ansawdd bywyd yn sylweddol uwch ar ddiwedd y rhaglen o'i gymharu â'r dechrau.
- Roedd y rhaglen yn brofiad ysgogol, gan alluogi gwytnwch personol a chysylltiad cymdeithasol.
- Dywedodd y cyfranogwyr fod y rhaglen yn ddiddorol, cyfeillgar a phleserus. Cawsant deimlad cryf o gyflawniad ac roeddent yn teimlo eu bod yn rhan o'r sesiwn.
- Roedd y manteision yn amlwg waeth beth fo'r lleoliad neu gyfnod y dementia.

Darlennwch y cyhoeddiad llawn

Windle, G., Joling, K., Howson-Griffiths, T., Woods, B., Jones, C. H., van de Ven, P., Newman, A., Parkinson, C. (2017). The impact of a visual arts programme on quality of life, communication and well-being of people living with dementia: A mixed-methods longitudinal investigation. [*International Psychogeriatrics*](#), 1-15.



Beth yw'r goblygiadau?

- Roedd y rhaglen celfyddydau gweledol a gyflwynwyd yn yr ymchwil hon yn ddiogel, effeithiol, gofalggar, ymatebol ac wedi'i harwain yn dda. O ganlyniad dylai gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol gael eu hymgorffori o fewn y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol arferol.
- Ar hyn o bryd yn y DU mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE) yn argymhell grwpiau symbyliad gwybyddol fel triniaeth seicogymdeithasol i bobl sy'n byw gyda dementia ysgafn i gymedrol. Gall symbyliad gwybyddol fod yn agwedd allweddol o'r rhaglen gelf a ddisgrifir yma, gan fod cysondeb rhwng 'egwyddorion arweiniol' symbyliad gwybyddol, ac agweddau ar ein rhaglen gelfyddydol.
- Gallai llwybr gweithredu posibl yn y dyfodol gynnwys ystyried rhaglen gelfyddydol fel dewis dilynol neu ddewis amgen i grŵp ysgogi gwybyddol confensiynol.
- I bobl sy'n byw gyda phob cyfnod o ddementia, mae sefydliadau diwylliannol a lleoliadau cymunedol yn llwydd delfrydol ar gyfer cyflwyno gweithgareddau ysgogol o'r fath, sy'n gymdeithasol gynhwysol ac o ansawdd uchel.
- Gall rhagnodi cymdeithasol alluogi ymarferwyr iechyd i gyfeirio cleifion at fentrau celfyddydol cymunedol.